

DOLEN Y TAB 73

17–18 Medi 2021

Am 11 fore Sul 19 Medi

Gwasanaeth yng ngofal Helen Prosser,
a Lowri a Dafydd Roberts.

YR OEDFAON NESAF

Cofiwch Gofrestru!

Am y tro gofynnwn yn garedig i chi gofrestru eich bwriad i fynychu oedfaon yn y Tabernacl ar foreau Sul, a hynny erbyn 6yh ar y dydd Gwener blaenorol. Rydym yn rhagweld y bydd angen cyn hir i ragor eistedd lan lofft gan fod y niferoedd sy'n mynychu oedfaon yn codi. Ni wneir casgliad yn ystod yr oedfa, ond bydd blychau casglu yn y cyntedd.

Medi

26 Yng nghwmni Rhiannon Humphreys a'r teulu.

Hydref

3 Oedfa Gymun gydag Ann ac Emlyn Davies.

10 Yng ngofal Iwan Rowlands a'r Parchg. Aled Edwards.

17 Cwrdd Diolchgarwch gyda'r Ysgol Sul, Huw M a Bethan Reynolds.

24 Yng ngofal Glenys Roberts a'r Parchg. Gethin Rhys.

31 Yng ngofal Lyn a Mike West a'r teulu.

Hefyd ddydd Sul 19 Medi

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Helen Wyn Jones, Bae Colwyn.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol. *Rhoddir sylw yn y rhaglen yr wythnos hon i Gynllun Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr.*

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol – Sul Heddwch

Ar Sul Heddwch, nodir 20 mlynedd ers yr ymosodiadau terfysgol yn UDA ar 11 Medi 2001.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Briwsion o'r Bwrdd

Nos Fawrth yr wythnos ddiwethaf, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn dilyn gwyliau'r haf. Roedd pob un oedd yn bresennol yn rhannu teimlad Edwyn, ein Cadeirydd, sef mor braf oedd cael cwrdd wyneb-yn-wyneb a hynny am yr ail dro yn unig mewn deunaw mis. Dyma grynodedd byr o'r prif faterion dan sylw:

- adroddodd Edwyn ein bod yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu Eleri, ein Swyddog Ieuenctid a Chymunedol, i'n plith. Rhagwelwn y bydd yn creu argraff gadarnhaol iawn ar bawb o bob oed, ac y bydd ei phenodiad yn ddechrau cyfnod newydd cyffrous yn hanes yr achos;

- mewn ymateb i'r profiad o fynychu oedfa yn y capel am y tro cyntaf ers 18 mis, deuddydd ynghynt, roedd yn gam naturiol i'r Bwrdd asesu'r trefniadau a wnaed. Cytunwyd eu bod wedi gweithio'n foddhaol, ond sylwedolwyd mai tua 45 ar y mwyaf y gellid eu heistedd yn ddiogel ar y llawr gwaelod. Cytunwyd i adolygu'r trefniadau ymhen y mis;

- penderfynu sut orau i weini'r elfennau yn ddiogel yn yr oedfa gymun ar 3 Hydref oedd un o'r eitemau ar yr agenda. Rhoddwyd nifer o ddewisiadau posib gerbron yr aelodau, ac wedi trafodaeth helaeth cytunwyd i weini'r gwin i bawb yn y modd arferol, ond rhoi'r dewis i'r aelodau ddod â'u bara eu hunain os byddent yn teimlo'n anghyfforddus yn ei dderbyn oddi ar y plât cymun;

- gyda phenodiad Eleri, cytunwyd i wahodd nifer o aelodau'r Tabernacl i wasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli'r Cynllun Arloesi a Buddsoddi. Mae'n dda adrodd bod pob un a enwyd wedi cytuno i wasanaethu ar y pwyllgor. Mae ein dyled yn fawr iawn iddynt am gytuno, a thalwyd diolch hefyd i'r Is-bwyllgor fu mor weithgar yn 'paratoi'r ffordd'. Mae'n galonogol nodi bod cyfartaledd oedran y pwyllgor newydd tua 25 mlynedd yn is!

- cytunwyd i lunio cais i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen am gymorth ariannol tuag at brynu offer technegol fyddai'n caniatáu i ni ddarlledu'r oedfaon yn fyw o'r Tabernacl.

Diwrnod Rhyngwladol Heddwch

Heddwch a Newid Hinsawdd Peace and Climate Change



Academi
Heddwch
Cymru

Trafodaeth banel gyda gwesteion
arbenigol ar Fedi 21ain.
A panel discussion with expert guests
on September 21st.

I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Heddwch ar 21 Medi, mae Academi Heddwch Cymru yn cynnal trafodaeth banel gyda gwesteion arbennig rhwng 12.00–1.00pm, gan dynnu sylw'n arbennig at heddwch a newid hinsawdd. I ymuno, dilynwch y ddolen hon:

[https://www.eventbrite.co.uk/e/heddwch-a-newid-hinsawdd-peace-and-climate-change-tickets-169125084681 ...](https://www.eventbrite.co.uk/e/heddwch-a-newid-hinsawdd-peace-and-climate-change-tickets-169125084681...)

Eleri'n Dishgwl 'Mlan

Fy enw i Eleri Mai Thomas, yn wreiddiol o Langynin, pentref bach ger San Clêr yn Sir Gaerfyrddin. Rwyf wedi ymgartrefu yn Nhreganna, Caerdydd ers dros ddegawd bellach gyda fy ngŵr a'r merched – Nel sy'n 8 mlwydd oed a Nansi sy'n 4 oed.

Rwyf wedi gweithio yn y maes Cymunedol ac Ieuenctid ers dros 20 mlynedd. Roedd fy mhrofiad cyntaf yn y maes yn ardal y Wes Wes, lle roeddwn yn cydweithio gyda thrigolion, plant a phobl ifanc ardal y Preselau. Yna, am y ddegawd ddiwethaf, bûm yn aelod o staff yr Urdd yn y sector Ieuenctid, ac am y pedair blynedd gyntaf gweithiais yn benodol fel Swyddog Ieuenctid yn Ysgol Gyfun Gartholwg. Felly rwy'n gyfarwydd iawn ag ardal Efail Isaf a'r cyffiniau, ac â'i phobl.

Apêl y Swydd

Fe apeliodd y swydd hon yn y Tabernacl ataf gan ei bod yn gyfle hynod o gyffrous a ffres ac yn her arbennig i gael arwain gwaith yr eglwys yn y meysydd rwy'n gyfarwydd â nhw. Rwy'n ymwybodol iawn o'r gwaith diflino a chanmoladwy sy'n cael ei wneud yn y gymuned leol. Ond, yn naturiol, nid da lle gellir gwell, a byddaf i yno i gydweithio gyda'r gwirfoddolwyr a rhannu baich y gwaith. Eisoed mae yma sylfaen gadarn iawn i ddatblygu ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd pellach, ac rwy'n teimlo'n hynod freintiedig o gael y cyfle i ymgymryd â'r gwaith hwn. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda phawb, o'r babi newyddanedig i aelodau hynaf y gymuned.

Mae'r croeso rwyf eisoes wedi ei derbyn mor dwymgalon. Pawb mor gyfeillgar, yn barod i gynorthwyo, gwirfoddoli a rhannu syniadau, ac yn hynod awyddus i'r swydd lwyddo. Rwyf wedi mwynhau fy wythnos gyntaf yn cyfarfod gyda nifer o unigolion, ond yr uchafbwynt yn sicr oedd y sgwrs a gefais gydag Iwan West a chriw'r rhandir fore lau – ac mi roeddwn yn hynod ffodus o dderbyn tato blasus o'r ardd!



Hon yw wythnos gyntaf Eleri yn ei swydd fel Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol y Tabernacl. Cafodd nifer ohonoch gyfle i'w chlywed yn ei chyflwyno'i hun yn yr oedfa fore Sul diwethaf. I'r rhai ohonoch oedd yn methu bod yn bresennol, fe'i gwahoddwyd i gyflwyno'i hun i'r holl aelodau trwy dudalennau'r **Ddolen**; mae hi'n sôn hefyd am yr hyn a'i denodd i wneud cais am y swydd a'r hyn mae'n gobeithio ei gyflawni.

Estynnwn ein croeso a'n dymuniadau gorau i Eleri.

Pwysigrwydd Gwranddo

Dros yr wythnosau nesaf mi fydd gen i amserlen benodol, felly bydd modd i chi alw i mewn i'r Ganolfan am ddishgled a sgwrs. Os oes rhywun yn dymuno cael sgwrs neu drafodaeth, fy manylion cyswllt yw:

elerimaithomas@hotmail.com
07971397264.



Darpariaeth, Digwyddiadau a Gweithgareddau

Mae gen i lond trol o syniadau, ond yr elfen bwysicaf i mi yw gwranddo ar y gynulleidfa – ac yn fwyaf arbennig ar lais y bobl ifanc. Gyda hyn mewn golwg, rwyf wedi llunio holiadur *Survey Monkey* er mwyn rhoi cyfle i chi leisio eich syniadau.

Dyma'r linc i'r holiadur:

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/ZGLBLZL>

Hefyd mi fydd yna flwch yn y capel i chi nodi eich syniadau yn gwbl gyfrinachol.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at:
07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk
